Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Tlodi Plant:**

# Grant Arloesi a Chefnogi Cymunedau 2025/26

## Cwestiynau Cyffredin

Mae'r Cwestiynau Cyffredin hyn wedi'u cynllunio i gefnogi Tlodi Plant: Grant Arloesi a Chefnogi Cymunedau Tlodi Plant: Grant Arloesi a Chefnogi Cymunedau | LLYWODRAETH. CYMRU Mae'n ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru wrth i gwestiynau newydd gael eu gofyn.

### C1. Pa dystiolaeth ddylem ei darparu i gadarnhau cydweithrediad gan y sefydliadau a fydd yn cyflawni'r prosiect gyda ni?

**A.** Mae e-bost gan y sefydliadau rydych chi'n cydweithio â nhw, sy'n cadarnhau eu bod yn fodlon cyflawni'r prosiect, yn ddigonol.

### C2. A allwn ni ofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais?

**A.** Fel y cynghorir yn y Nodyn Canllawiau Ceisiadau Grant, ni chaniateir unrhyw estyniad i'r dyddiad ac amser ar gyfer cyflwyno ceisiadau, sef hanner nos 13 Ebrill 2025. Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried. Mae dyddiad cau ar ddydd Sul wedi'i ddewis yn dilyn adborth gan sefydliadau sy'n gweithio ar benwythnosau.

### C3. Beth yw diffiniadau'r canlynol:

Lefel Gymunedol a Lleol – hyd at £25,000 ar gael fesul cais llwyddiannus

Lefel Ranbarthol - hyd at £125,000 ar gael fesul cais llwyddiannus

**A.** Cymuned – Ardal sydd wedi’i lleoli’n ddaearyddol agos e.e. tref, pentref neu gymdogaeth. Lleol - mae ardal leol yn cynnwys sawl cymuned sy’n agos at ei gilydd yn ddaearyddol e.e. awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) neu ardal ehangach a allai ffinio â mwy nag un awdurdod lleol.

Lefel Ranbarthol - ardal sy'n cynnwys mwy nag un awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) mewn un rhanbarth ddaearyddol yng Nghymru a/neu o fewn ardal partneriaeth ranbarthol sydd eisoes yn bodoli. Er enghraifft, (ond heb ei gyfyngu i'r enghreifftiau) ardal Bwrdd

Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyd-bwyllgor Corfforaethol, Bwrdd Iechyd neu ardal Partneriaeth Ranbarthol.

**C4. A all ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus yn rownd 2024/25 wneud cais am gyllid?**

**A.** Cytunodd ymgeiswyr llwyddiannus o'r rownd flaenorol i gyflawni eu prosiectau yn llwyr erbyn 31 Mawrth 2025.

Ni fyddwn yn ariannu unrhyw gynigion i barhau prosiect o 2024/25. Gellir cynnwys ceisiadau sy'n cynnwys elfennau o brosiect blaenorol, fodd bynnag, byddai angen i'r cais ddangos a darparu tystiolaeth o'r cydweithio a'r arloesi **ychwanegol** y mae'r cais newydd yn ei ddarparu a sut mae'n bodloni meini prawf y grant ar gyfer y flwyddyn ariannu hon. Ni fydd atgynhyrchu prosiect a ariannwyd yn ystod 2024/25 yn gymwys fel 'cydweithredu ac arloesi ychwanegol' ar gyfer 2025/26.

**C5. A oes unrhyw feini prawf cymhwyster o ran maint sefydliadau?**

**A.** Nid oes unrhyw beth yn ein canllawiau/meini prawf a fydd yn atal sefydliad o unrhyw faint penodol rhag gwneud cais gan nad yw maint sefydliad yn un o'r meini prawf cymhwyster.

**C6. Mae rhai pobl eisoes wedi mynegi diddordeb mewn gweithio gyda ni. A allwn ni fel sefydliad gael ein henwi ar fwy nag un cais?**

**A.** Nid oes unrhyw beth yn ein canllawiau/meini prawf a fydd yn eich atal chi fel sefydliad rhag cael eich enwi mewn mwy nag un cais.

**C7. (a) Un o'r pethau rydyn ni'n edrych arno yw cydweithio ar gyfer y prosiect yr ydym yn gobeithio'i lansio, sef llwybr allan o dlodi.**

**(b) Ar hyn o bryd rydym yn ymwneud â phrosiect ymchwil yn X ynghylch nodi rhai o'r materion sy'n ymwneud â thlodi yn ein cymuned.**

**(c) Ai'r grant hwn yw'r lle priodol i wneud cais am gyllid?**

**A.** Gan na allwn ddarparu cyngor nac arweiniad am geisiadau unigol, ein cyngor fyddai i chi edrych ar y canllawiau ymgeisio i weld a fyddai'ch cynnig yn bodloni meini prawf cymhwyster y grant. Os yw'n gwneud hynny, fe allech chi wneud cais.

**C8. A all ysgolion wneud cais?**

**A.** Gall ysgolion wneud cais a bydd angen i'r cais fodloni meini prawf cymhwyster y grant.

**C9. Byddwn yn gwneud cais am grant rhanbarthol. A fydd yn well yn ôl eich system sgorio inni gynnwys gwerthusiad ffurfiol? Mae'r wybodaeth o ran meini prawf yn nodi bod angen i werthusiadau fod yn gymesur ond nid yw'n nodi'u bod yn orfodol - allwch chi gynnig cyngor, os gwelwch yn dda?**

**A.** O ran y gwerthusiad, eich penderfyniad chi fel Ymgeisydd yn llwyr fyddai cynnal gwerthusiad allanol neu werthusiad mewnol.

Byddem yn disgwyl i ryw fath o werthusiad gael ei gynnwys ym mhob cynnig i sicrhau bod y dysgu ynghylch cydweithredu ac arloesi yn cael ei ddangos ac y gellir ei rannu.

Dylai unrhyw werthusiad rydych chi'n ei wneud fel rhan o'ch cynnig fod yn gymesur â graddfa eich cynnig. Rhaid iddo gynnwys lleisiau'r bobl rydych chi wedi ceisio eu helpu fel rhan o'r prosiect a dweud wrthym sut mae'r prosiect wedi gweithio, yr hyn y mae wedi'i gyflawni a'r effaith y mae wedi'i chael ar y bobl neu'r sefydliadau rydych chi wedi gweithio gyda nhw.

**C10. A allai'r grant gael ei ddefnyddio i brynu bwyd bob mis ar gyfer rhedeg banc bwyd.**

**A.** Gan na allwn ddarparu cyngor nac arweiniad am geisiadau unigol, ein cyngor fyddai i chi edrych ar y canllawiau ymgeisio i weld a fyddai'ch cynnig yn bodloni'r meini prawf cymhwyster y grant. Os yw'n gwneud hynny, gallwch gyflwyno cais.

Byddem yn awgrymu os mai'r bwriad yw defnyddio'r grant i brynu bwyd bob mis ar gyfer rhedeg banc bwyd yn unig, mae'n debyg na fyddai'n bodloni holl feini prawf y grant. Serch hynny, ni fyddem yn dymuno rhagbennu unrhyw gais, felly mae angen i chi edrych yn ofalus iawn ar beth mae arnoch eisiau ei wneud a sut mae'n bodloni'r meini prawf.

Efallai y byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid uniongyrchol/brys arall ar gyfer bwyd i fanciau bwyd drwy Awdurdodau Lleol, felly cysylltwch â'ch ALl i wirio a allwch gael mynediad at hynny.

**C11. A oes fersiwn addas i bobl niwroamrywiol?**

**A.** Nid oes gennym fersiwn addas i bobl niwroamrywiol, fodd bynnag gallwn drefnu i aelod o'r tîm fynd drwy'r Cais a'r Canllawiau gyda chi. E-bostiwch y blwch post yn GrantArloesiTlodiPlantAChefnogiCymunedau@llyw.cymru

**C12. Beth yw'r ystod oedran ar gyfer y bobl ifanc a fyddai'n elwa pe bai'r rhaglen mewn cais yn cael ei chyflawni? A oes terfyn oedran penodol, er enghraifft hyd at 18 neu 18+**

**A.** Nid oes terfyn oedran o ran y bobl y gellir eu cefnogi gyda'r grant hwn.

**C13. A fydd angen i fuddiolwyr gael prawf modd i asesu a ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwyster o ran tlodi?**

**A.** Na, ni fydd angen i fuddiolwyr gael prawf modd i asesu a ydynt yn gymwys.

**C14. A yw'n ofynnol i ni gyflwyno prosiectau/gweithgareddau newydd i wahaniaethu rhwng ein rhaglen a'n rhaglenni gwaith arferol, a chael effaith arwyddocaol ar fywydau pobl ifanc yng Nghymru?**

**A.** Mae hwn yn gyllid sy'n targedu cydweithredu ac arloesi ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yn benodol. Mae angen i'ch prosiect newydd fod ar wahân i'ch rhaglen waith arferol, a bodloni'r meini prawf ar gyfer y grant.

**C15. Oes gennych chi unrhyw syniad o sawl cais y byddech yn disgwyl eu gweld yn llwyddo o ran sicrhau cyllid o'r pot rhanbarthol?**

**A.** Bydd hyn yn dibynnu ar y ceisiadau sy'n dod i law. Nid ydym wedi rhagbennu sawl cais y byddwn yn dyfarnu gwobrau iddynt o bob pot.

**C16. A oes cyfyngiad ar nifer y partneriaid ar gyfer pob cais?**

**A.** Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran nifer y partneriaid y gallwch eu cael mewn cais.

**C17. Ydych chi'n gallu bod yn rhan o gais rhanbarthol gyda gwahanol bartneriaid yn ogystal â chyflwyno'ch cais eich hun?**

**A.** Gallwch. Rydych yn gallu bod yn bartner a enwir a chyflwyno eich cais eich hun hefyd cyn belled â bod y cynigion yn bodloni meini prawf y grant.

**C18. A allwn ni weithio gyda gwahanol is-adrannau o fewn Awdurdod Lleol neu sefydliadau?**

**A.** Gallwch. Rydych yn gallu cydweithio â gwahanol adrannau/is-adrannau o fewn Awdurdodau Lleol.

**C19. A yw'n dderbyniol cynnwys costau refeniw cyflogi aelod o staff i reoli'r cynllun?**

**A.** Ydy. Cewch gynnwys costau refeniw i gyflogi rhywun i reoli'r cynllun.

Mae angen i unrhyw gostau staff ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau sy'n gwella trefniadau cydweithio i gefnogi'r rhai sy'n byw mewn tlodi.

Bydd disgwyl i geisiadau fodloni'r meini prawf cymhwyster, fel yr amlinellir yn y Canllawiau.

**C20. Sut ydym ni'n diffinio 'cydweithredu'? A yw cydweithrediad rhwng dwy elusen annibynnol yn cael ei gyfrif yn enghraifft o gydweithio?**

**A.** Cydweithio yw'r broses o ddau neu fwy o sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nod a rennir. Ni fyddai gennym broblem â dwy elusen annibynnol yn cydweithio.

**C21. Allwch chi wneud cais mwy nag unwaith i'r gronfa?**

**A.** Gallwch gyflwyno mwy nag un cais a bod yn bartner mewn mwy nag un cais. O ran cyflwyno mwy nag un cais, hoffem bwysleisio eto mai dim ond swm penodol o gyllid sydd gennym i'w ddyfarnu. Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ni wneud rhai penderfyniadau anodd ynghylch pa brosiectau y gallwn eu hariannu, ac felly, yn anffodus, bydd hynny'n golygu y bydd rhai prosiectau na allwn eu hariannu.

**C22. A oes canllawiau ar sut i ddarparu tystiolaeth o ran gwerth am arian?**

**A.** Yn yr adran hon, bydd angen i'ch cais ddangos profiad a llwyddiant eich tîm wrth gyflawni prosiectau cyffelyb, dangos sut mae eich prosiect yn cynnig y gwerth gorau am y gost a bydd angen i chi egluro sut bydd eich prosiect yn parhau i gynnig gwerth y tu hwnt i gyfnod y grant (ac os yw'n berthnasol - sut y bydd y prosiect yn arwain at arbedion yn yr hirdymor).

**C23. A fyddai ceisiadau'n cael eu derbyn ar gyfer prosiectau sy'n cael eu cyflwyno ar raddfa genedlaethol neu rai lle mae gan eu partneriaid bresenoldeb cenedlaethol?**

**A.** Byddai prosiectau ar raddfa genedlaethol neu y mae gan eu partneriaid bresenoldeb cenedlaethol yn cael eu hystyried cyn belled â bod y cynnig yn bodloni meini prawf y grant.